

Ymarfer All-gynhyrchu

Er mwyn paratoi ar gyfer arholiad, *rhaid i chi ymarfer gwneud yr hyn y mae'r arholiad yn gofyn i chi ei wneud; cyflwyno gwybodaeth, nid ei gymryd i mewn!* Mae hyn yn berthnasol i brofion rheolaidd yn y dosbarth yn ogystal â'r arholiadau terfynol.

Cyn Mehefin, mae'n debyg y byddwch wedi cael y fantais o gael llawer o brofion dosbarth a rhai arholiadau modiwl lle mae'r amodau TGAU yn cael eu hail-greu, er eich lles - gallwch ddysgu llawer wrth feddwl yn ofalus ac yn onest am eich perfformiad yn y profion hyn. Mae gennych hefyd y fantais o'r cyfoeth o wybodaeth sydd ar gael am yr arholiadau. Mae papurau arholiadau o'r gorffennol, cynlluniau marcio, canllawiau astudio ac adroddiadau arholwyr i gyd yno i chi eu defnyddio.

- **Gwnewch ddefnydd o hen bapurau**

Dylai'r rhain fod eich cydymaith cyson yn ystod yr holl dasgau adolygu. Ar gyfer pob pwnc yr ydych yn adolygu, ewch at y cwestiynau o'r hen bapurau ar y pwnc hwn ac yna ceisiwch eu hateb. Gwiriwch eich atebion, llenwch y 'bylchau gwybodaeth' lle bo angen, a ffeiliwch yr 'ateb model' cywir yn eich nodiadau ar gyfer y dyfodol. Byddwch hefyd yn dechrau sylwi ar unrhyw dueddiadau yn y cwestiynau a ofynnir.

- **Dilynwch y marciau**

Mae cynlluniau marcio yn gymorth amhrisiadwy i baratoi ar gyfer arholiadau; (maent ar gael ar-lein o'r Adran Addysg a Sgiliau [DfES], AQA, ac ati). Gallwch weld sut mae'r marciau'n cael eu dyrannu ar gyfer pob cwestiwn ar y papur a maint neu arddull yr ateb sydd ei angen ym mhob achos. Bydd y wybodaeth hon yn goleuo eich gwaith adolygu ac yn helpu i gael gwared ar ddirgelwch yr arholiad.

Rhowch gynnig ar rihysal i ymarfer o flaen llaw

Mae pob papur arholiad yn cynnwys ei strwythur a'i her benodol ei hun, gyda phwyslais yn amrywio ar arddull ateb, a dyfnder. Tra bydd llawer o'ch adolygu parhaus yn seiliedig ar bynciau unigol a chwestiynau, mae'n ymarferiad defnyddiol iawn i fynd i'r afael â'r papur arholiad yn ei gyfanrwydd (o leiaf unwaith cyn mis Mehefin). Mae'n eich gorfodi i ystyried eich strategaeth - y cwestiynau bydd angen i chi eu hateb neu eu hosgoi, y mater o amseru, y nifer o bwyntiau bydd angen i chi wneud ym mhob rhan o gwestiwn. Ar ôl perfformio'r ymarfer hwn ychydig o weithiau, bydd eich lefelau hyder yn cryfhau wrth i chi drefnu eich strategaeth ar gyfer yr arholiad, ac yn sylweddoli na fydd unrhyw beth annisgwyl yn troi i fyny ym mis Mehefin.